

FOULKES, WILLIAM (bu farw 1691), clerigwr ac awdur

Enw: William Foulkes
Dyddiad marw: 1691
Plentyn: William Foulkes
Rhiant: John Foulkes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awduron: Robert Thomas Jenkins, Griffith Milwyn Griffiths

Mab i glerigwr (o'r enw John Foulkes, meddai **Ashton**. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychen, yn 1650 (ni roddir ei oedran), a graddiodd yn 1653. Yr oedd yn rheithor segur y Cwm (ger Rhuddlan) yn 1660-1, yn rheithor Llanfyllin (a Llanbryn-mair hefyd) 1661-91, gyda Llanfihangel-yng-Ngwynfa o 1680, ac yn ganon yn Llanelwy o 1662 ymlaen. Bu farw yn Llanfyllin ddechrau 1691 - claddwyd 9 Ionawr. Yn 1685, golygodd a chyhoeddodd *Gweddî'r Arglwydd wedi ei hegluro*, gwaith yr **esgob George Griffith**; ac yn 1688 gyfieithiad, *Espaniad ar Gatecism yr Eglwys*, gwaith yr esgob Ken.

Mab iddo oedd WILLAM FOULKES, a raddiodd o Goleg Iesu, Rhydychen, yn 1699 (B.C.L. 1705, D.C.L. 1707). Ceir yr enw 'Gul. Fowkes LL.D. e coll Iesu' ar ôl darn o farddoniaeth yr yr atodiad i Cardiff MS. 26.

Awduron

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Griffith Milwyn Griffiths

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford*

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893) 85-6

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), i, 360; ii, 230, 234

J. Gwenogvryn Evans, *Reports on Manuscripts in the Welsh Language* (Historical Manuscripts Commission 1898â€“1910), ii, 224

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q8009266

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Priffrannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., & Griffiths, G. M., (1953). FOULKES, WILLIAM (bu farw 1691), clerigwr ac awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-FOUL-WIL-1691>

Priffrannu

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government